Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 13 Tachwedd 2017 am 7:45p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Keiran Allsopp-Robson, Jim Bryan, Ian Lewney, Anne Roberts, Dave Snape ac Emrys Wynne.

37. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Gavin Harris.

38. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

39. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau bod y cofnodion a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2017 yn gywir.*

40. MATERION YN CODI
Cyfeiriodd y Clerc at lythyr oddi wrth Dr Mohammed Mehmet, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych ynghylch cerdded yn ddiogel i'r ysgolion newydd ar safle Glasdir.
***PENDERFYNWYD**: anfon copi at yr holl aelodau.*

41. PRISIAU GOLEUADAU NADOLIG AR Y COED NADOLIG 2017
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried pris gan Aerial Electrics i osod goleuadau LED ar y coed Nadolig a'u tynnu ymaith yn ddiweddarach, ar gost o £3,294.00 + TAW.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y pris am y goleuadau Nadolig.*

42. CWPAN CYNGOR TREF RHUTHUN I ENILLYDD Y GYSTADLEUAETH YR ARDD ORAU
Dangoswyd y gwpan a gyflwynir i enillwyr y categori yn arferol yn Sioe Rhuthun. Cytunodd yr aelodau ei bod mewn cyflwr annerbyniol, ac awgrymwyd prynu tarian newydd yn lle cwpan newydd, yn amodol ar ymgynghori gyda Phwyllgor Sioe Rhuthun.
***PENDERFYNWYD**: ymgynghori gyda Phwyllgor Sioe Rhuthun ynghylch darparu tarian ar gyfer y gystadleuaeth Yr Ardd Orau.*

43. DATHLIADAU ARFAETHEDIG NOS GALAN AR SGWÂR SANT PEDR
Ystyriodd yr aelodau asesiad risg Grŵp Cymuned Rhuthun a rhagor o wybodaeth ynghylch y digwyddiad. Penderfynwyd gofyn am farn yr Heddlu am y trefniadau.
***PENDERFYNWYD**: gwneud penderfyniad yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar 27 Tachwedd.*

44. AROLWG Y CAEAU CHWARAE COFFA
Gofynnwyd i'r aelodau rannu'r holiadur gyda rhai â diddordebau.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r cais.*

45. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF
***PENDERFYNWYD**: mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 4 Rhagfyr 2017 am 7:30pm.*